**Pontius Pilat**

**Darllen Ioan 18:1–19:42**

Daeth Pilat allan eto, ac meddai wrthynt, ‘Edrychwch, rwy’n dod ag ef allan atoch, er mwyn ichwi wybod nad wyf yn cael unrhyw achos yn ei erbyn’. Daeth Iesu allan, felly, yn gwisgo’r goron ddrain a’r fantell borffor. A dywedodd Pilat wrthynt, ‘Dyma’r dyn’. Pan welodd y prif offeiriaid a’r swyddogion ef, gwaeddasant, ‘Croeshoelia, croeshoelia’. ‘Cymerwch ef eich hunain a chroeshoeliwch,’ meddai Pilat wrthynt, ‘oherwydd nid wyf fi’n cael achos yn ei erbyn.’ Atebodd yr Iddewon ef, ‘Y mae gennym ni Gyfraith, ac yn ôl y Gyfraith honno fe ddylai farw, oherwydd fe’i gwnaeth ei hun yn Fab Duw’. Pan glywodd Pilat y gair hwn, ofnodd yn fwy byth. Aeth yn ei ôl i mewn i’r Praetoriwm, a gofynnodd i Iesu, ‘O ble’r wyt ti’n dod?’ Ond ni roddodd Iesu ateb iddo (Ioan 19:4–9).

Ni allwn gael achos yn ei erbyn,
dim cyhuddiad i’w ateb.
Nid rebel ydoedd yn annog gwrthryfel,
nid un â’i fryd ar rym daearol –
roedd ei fwriadau, yn nhermau’r byd, yn amlwg yn ddiniwed,
ac yn sicr yn gamarweiniol.

Ni achosodd ddolur i neb,
ni wnaeth gam â neb,
ond roedd hi’n bendant iddo dramgwyddo rhywrai,
a daeth yn glir fod yr hen Ysgrifenyddion a’r Phariseaid,
gyda’u rheolau a’u deddfau diddiwedd,
yn benderfynol o roi taw arno:
nid ei gosbi na’i garcharu,
ond ei ladd.

Ni fyddai hynny wedi fy mhoeni fel arfer –
beth yw un cythryblwr yn llai? –
ond fe wnaeth y dyn Iesu yma i mi deimlo’n anghysurus o’r dechrau.
Y llygaid yna!
Ei atebion sicr!

Cefais fy nhaflu’n llwyr,
a chefais yr argraff fod fy nhynged yn ei ddwylo ef,
yn hytrach na’i dynged ef yn fy nwylo i.
O ble daeth hwn, meddyliais?
Pwy oedd hwn?
Ymwelydd oddi wrth y duwiau?

Ac wrth i’r posibilrwydd ddal gafael ynof,
ceisiais ei ryddhau.
Ond roedd hi’n anobeithiol,
gan fod y cŵn wedi arogli gwaed,

a'r mwyaf y plediwn ar ei ran,
cryfaf y waedd am waed.
Ildiais, ymhen hir a hwyr.
Pa ddewis oedd gennyf?
Gwell mentro'i fywyd ef na'm bywyd i.
Ond chysgais i 'run eiliad ers hynny,
mae'r olwg ar ei wyneb yn parhau i darfu arnaf.

Ni chefais yr un achos yn ei erbyn,
eto traddodais ef i farw,
a does gen i ond gobeithio nad yw'r hyn a ddywedodd amdano'i hun yn wir –
brenin byd arall –
os gwir hynny, rwy'n ofni dedfryd arall ryw ddiwrnod...
mewn achos yn fy erbyn i.

**Gweddi:**
O Grist ein Gwaredwr,
am dderbyn ein dedfryd,
am wynebu ein cosb,
am gario beichiau'r byd,
addolwn di.
Derbyn y diolch, y mawl, yr addoliad a'r gwasanaeth
sydd wir yn eiddo i ti,
ac yn dy drugaredd
cymorth ni i dderbyn y fuddugoliaeth a enillaist trosom
ac i gerdded bob dydd mewn newydd-deb bywyd,
wedi'n glanhau,
ein hadnewyddu,
ac wedi derbyn dy faddeuant. Amen.